**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| | **Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2020/16** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Brake, Yr Elusen Diogelu'r Ffordd Fawr | Brake, The Road Safety Charity |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae gofyn am benderfyniad i wneud cyfraniad o £2,500 i Brake, Yr Elusen Diogelu'r Ffordd Fawr ar gyfer 2020-21.<br><br>Bydd hyn yn cefnogi'r Elusen wrth gynnig cefnogaeth arbenigol i'r rhai hynny sydd wedi colli rhywun mewn damwain ffordd yng Ngogledd Cymru. Defnyddir y gwasanaeth hwn yn gyson gan Heddlu Gogledd Cymru sy'n cynnig adborth positif ac yn gosod gwerth mawr ar y gwasanaeth a gynigir gan Brake.<br><br>Mae pecynnau profedigaeth yn cael eu cynhyrchu ac yn cael eu dosbarthu i Swyddogion Cyswllt Teulu i roi cymorth i rai sydd wedi dioddef mewn damweiniau ffyrdd. Mae cefnogaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth ac arweiniad i Swyddogion Cyswllt Teulu hefyd ar gael gan Brake. | A decision is required for a contribution of £2,500 to Brake, The Road Safety Charity for 2020-21.<br><br>This will support the Charity in providing specialist support services for those who have been bereaved by road crashes in North Wales. This service is used regularly by North Wales Police who provide positive feedback and place great value on the services offered by Brake.<br><br>Road crash bereavement packs are produced and distributed to Family Liaison Officers to support victims of road crashes. Support, awareness training and guidance to Family Liaison Officers is also offered by Brake. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Mae £2,500 ar gael oddi wrth Grant Trosedd ac Anhrefn y Comisiynydd i gefnogi'r gwaith hwn.<br><br>**Oblygiadau Cyfreithiol**:- Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i roi grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol a all gefnogi cyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn ateb dyletswydd statudol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i sicrhau bod gan yr Heddlu'r adnoddau sydd angen arnynt i fod yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn cefnogi pobl sydd wedi colli anwyliaid mewn damweiniau ar y ffyrdd. | **Financial**: £2,500 has been made available from the Commissioner's Crime and Disorder Grant to support this work.<br><br>**Legal Implication**:- The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 enables the enables the Police and Crime Commissioner to award grants to partners, public organisations or voluntary groups that can support the delivery of the Police and Crime Plan. This meets the statutory duty of the Police and Crime Commissioner to ensure that the Force has the resources it needs to be effective and efficient to support people bereaved by road crashes. |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |

## Cofnod Penderfyniadau:
## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Decision Record:
## Police and Crime Commissioner for North Wales

| | |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais addas i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.<br><br>Rhan 1 o'r ddogfen hon i'w chyhoeddi. | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner.*<br><br>*Part 1 of this document is to be published* |
| **Llofnod / Signature: 05/05/2020** | **Dyddiad/Date** 05/05/2020 |

| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
|---|---|
| *Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod* | *I confirm that the above request has my approval* |
| Llofnod / Signature: | |
| *Arfon Jones*<br>*Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Police and Crime Commissioner*<br>Dyddiad/Date: 05/05/2020 | |